Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad	:	26 Ionawr 2011
Presennol	:	Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Dr. Tegau Andrews, Dr. Andrew Davies, Miss Sara Davies, Dr. Peredur Davies, Mr. Hefin Francis, Miss Edith Gruber, Mr Hefin Gwilym, Dr. Rhian Hodges, Miss Eleri Hughes, Yr Athro John Hughes, Dr. Lowri Hughes, Mrs. Bethan Wyn Jones, Mr Owain Wyn Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Gwyn Lewis, Yr Athro Peredur Lynch, Mrs. Delyth Murphy, Mrs. Mairwen Owen, Mrs. Sian Peris Owen, Mr. Alan Wyn Parry, Dr. Sara Parry, Mr. Huw Tomos Pritchard, Mrs. Delyth Prys, Mr. Euryn Rhys Roberts, Dr. Paula Roberts, Dr. Sara Elin Roberts, Miss Mair Rowlands, Mr. Wyn Thomas, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Mrs Llinos Wyn Williams, Miss Manon Wyn Williams, Miss Sarah Williams, Miss Sharyn Williams, Dr. Einir Young, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd).
Ymddiheuriadau:		Ms. Shân Ashton, Dr. Eryl Wynn Davies, Dr. Jason Walford-Davies, Miss Sian Esmor, Mr. Ifor Gruffydd, Dr. Jerry Hunter, Mrs. Elen Huws, Mr. David James, Mr. Dewi Wyn Jones, Dr. Eifiona Thomas Lane, Mrs. Pauline Loftus, Dr. Delyth Morris, Mr. Gerwyn Owen, Ms. Nia Powell, Dr. Angharad Price, Ms. Angharad Rhisiart, Mrs. Anwen Roberts, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Dr. Enlli Môn Thomas, Mrs. Gwenan Williams.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf o'r Ysgol. Croesawodd yn arbennig Mr Wyn Thomas a benodwyd yn ddiweddar yn Ddirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Chysylltiadau â'r Gymuned. Fe'i llongyfarchwyd yn wresog iawn a chyfeiriwyd at ei waith diflino yn hyrwyddo a datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ym Mangor ac yn genedlaethol.

2. CYFLWYNIAD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Roedd yn bleser gan y Cadeirydd estyn croeso i'r Athro John Hughes, Is-Ganghellor i'r cyfarfod ac fe'i llongyfarchodd yn gynnes ar ei benodiad i'r swydd. Cyfeiriodd at arwyddocâd y ffaith fod dau o'r materion y bu aelodau'r Ysgol yn pwyso'n daer amdanynt ers amser, sef penodi Dirprwy Is-ganghellor dros y Gymraeg ac ymrwymiad i fuddsoddi yn Neuadd John Morris-Jones, wedi eu hawdurdodi ers i'r Athro Hughes ddod i'w swydd. Yng nghyd-destun y datblygiadau hyn a dyfodiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, nododd y Cadeirydd

fod cyfle gwirioneddol i Fangor gryfhau ei safle fel prif ddarparwr addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg ac fel y sefydliad arweiniol ym maes dwyieithrwydd, a hynny er gwaethaf yr ansicrwydd yr oedd yr hinsawdd ariannol anodd a'r ail-strwythuro arfaethedig ym maes addysg uwch yn ei greu.

2. Nododd yr Is-Ganghellor ei bleser o gael mynychu'r cyfarfod ond eglurodd nad oedd modd iddo annerch y cyfarfod yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Pwysleisiodd, serch hynny, y byddai hynny'n newid maes o law.

   Roedd yn gwbl ymrwymedig i gynnal a datblygu safle Bangor fel y sefydliad addysg uwch arweiniol o ran y Gymraeg, ac roedd apwyntiad Mr Wyn Thomas fel Dirprwy Is-Ganghellor yn ernes glir o hynny. Credai'n gydwybodol fod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cyfoethogi bywyd. Cyfeiriodd at ei brofiad yn adfywio'r defnydd o'r Wyddeleg ym Mhrifysgol Maynooth, ei brofiad o ddysgu'r Almaeneg yn ystod ei gyfnod yn Awstria yn ogystal â'i ymdrechion i ddysgu Tsieinëeg. Roedd eisoes yn cael blas ar ddysgu'r Gymraeg ac yn elwa ar allu a phrofiad tiwtoriaid bendigedig yr Adran Dysgu Gydol Oes.

   Mynegodd ei ddyhead i weld cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr israddedig ac ôl-radd a oedd yn dewis ymgymryd â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i barodrwydd i fuddsoddi er mwyn sicrhau hynny. Cyfeiriodd at y ceisiadau yr oedd y Brifysgol eisoes wedi'u cyflwyno o dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nododd hefyd ei fod wedi pwysleisio'r angen i ddatblygu rhagor ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod ei ymweliadau diweddar â'r holl ysgolion academaidd.

   Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd gwreiddiau dwyieithog y brifysgol a'i lleoliad mewn ardal naturiol ddwyieithog i'w weledigaeth o greu prifysgol ryngwladol ar gyfer y rhanbarth. Cyfeiriodd at y swyddfa a agorwyd yn Beijing yn ddiweddar a'r swyddfeydd eraill y bwriedir eu hagor yn fuan. Pwysleisiodd nad oedd rhyngwladoli yn gyfystyr â cholli golwg ar y lleol, ond i'r gwrthwyneb yn hytrach.

   Nododd fod y Brifysgol yn gwbl gefnogol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn croesawu penodiad y cyn Is-Ganghellor yn Gadeirydd ar y Coleg. Ychwanegodd y byddai'n gwneud ei orau i sicrhau cynrychiolaeth i Fangor ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

   Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Ganghellor am ei gyflwyniad a chroesawodd ei addewid i fuddsoddi yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hefyd ei ymrwymiad i ddiogelu a datblygu lle'r Gymraeg yn y Brifysgol.

3. Yn dilyn y cyflwyniad, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Is-Ganghellor.

   3.1 Yng nghyd-destun y ffaith fod cryfder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i ganoli ar ychydig o ysgolion academaidd, holodd Dr Paula Roberts sut y gellid annog ysgolion eraill i ddatblygu ei darpariaeth?

   Atebodd yr Is-Ganghellor trwy ddweud fod pob un ysgol academaidd wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'w anogaeth iddynt ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod ei ymweliadau diweddar.

3.2 Nododd Dr Einir Young ei bod yn bwysig ysgogi staff i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o annog myfyrwyr i ddewis modiwlau cyfrwng Cymraeg.

Cytunodd yr Is-Ganghellor fod hon yn neges y byddai yn ei chyflwyno i'r ysgolion a'r colegau.

3.3 Nododd Dr Lowri Hughes mai un o'r dylanwadau ar ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar yw'r galw sydd wedi bod o du cyflogwyr am staff a chanddynt sgiliau dwyieithog. Holodd pa fath o rôl roedd yr Is-Ganghellor yn ei ragweld y gallai'r Brifysgol ei chwarae o ran datblygu'r bartneriaeth gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol ymhellach?

Eglurodd yr Is-Ganghellor bod y mater hwn o ddiddordeb mawr iddo a bod yn rhaid i'r Brifysgol greu perthynas agos â'r gymuned leol. Roedd eisoes wedi mynychu sawl achlysur yn y ddinas ac wedi cyfarfod penaethiaid, prif weithredwyr a diwydiannwyr yr ardal. Yn y cyswllt hwn hefyd nododd y byddai'n cadw golwg fanwl ar ddatblygiad project Pontio ac yn sicrhau bod y tîm sy'n gyfrifol am y cynllun yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg i lwyddiant y project.

3.4 Holodd y Cadeirydd sut oedd y Brifysgol yn bwriadu ymateb i gynlluniau'r Gweinidog Addysg trwy'r Cyngor Cyllido i gwtogi nifer y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i 6 erbyn Mawrth 2013.

Eglurodd yr Is-Ganghellor mai bwriad y Brifysgol oedd ymateb yn gadarnhaol i'r agenda hon trwy adeiladu ar y berthynas gref oedd rhyngddi eisoes â Phrifysgol Aberystwyth. Nododd, serch hynny, fod Is-ganghellor newydd Aberystwyth ac yntau yn gwbl gytûn nad oedd uno'r ddau sefydliad yn ystyriaeth.

3. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod o'r Ysgol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2010 fel cofnod cywir.

4. MATERION YN CODI

1. Eitem 6(2) Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yn dilyn cais gan Dr Einir Young cytunwyd i addasu'r cofnod gwreiddiol i amlygu'r teimladau cryf a fynegwyd gan rai aelodau ynglŷn â'r ffaith y byddai disgwyl i Gadeirydd a Chyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg cenedlaethol weithredu yn ddi-dâl ac ynghylch y penderfyniad i seilio gweinyddiaeth y Coleg ar y ganolfan bresennol yng Nghaerfyrddin.

2. Eitem 4(i) Bwrsariaethau

Adroddwyd bod y gwaith o sefydlu cynllun ysgoloriaethau ôl-radd ar gyfer cyrsiau lefel M y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn mynd rhagddo a bod disgwyl iddo fod yn ei le erbyn mis Medi 2011.

3. Eitem 4(2) Yr Wythnos Groeso

Adroddwyd bod TASIG wedi cytuno i sefydlu is-grŵp i drafod y wedd Gymraeg a Chymreig ar yr Wythnos Groeso. Ymhlith y cynlluniau sydd eisoes ar y gweill y mae pecyn ar gyfer staff a fydd yn darparu arweiniad ar sut i hybu a hyrwyddo pob agwedd ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4. Eitem 5(2) Neuadd John Morris Jones

Adroddwyd bod y Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno i adeiladu coridor cyswllt llawn rhwng adeiladau Tegfan a Bryn Dinas yn unol â dyhead y myfyrwyr i greu un gymuned yn Neuadd John Morris-Jones. Bydd y cyswllt yn ddigon llydan yn un pen i ychwanegu at y gofod cymdeithasol yn Ystafell Gyffredin Tegfan. Y cam cyntaf fydd ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith. Gobeithir cychwyn ar y gwaith adeiladu yn ystod yr haf gyda'r gobaith o'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y gost o £200,000 yn dod o ffynonellau canolog y Brifysgol.

Cytunwyd nodi'n ffurfiol lawenydd yr aelodau bod y gwaith yn mynd rhagddo.

5. Eitem 5(6) Project Cyfoethogi'r Cyfrwng Cymraeg

Adroddwyd y cyflwynir adroddiad llawn ar y Project Cyfoethogi'r Cyfrwng Cymraeg i gyfarfod nesaf yr ysgol fis Ebrill.

Gweithredu: LlJ

5. MATERION Y CADEIRYDD

1. Ystadegau Cyfrwng Cymraeg 2009/2010

Cylchredwyd er gwybodaeth yr Ystadegau Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2009/10 a dynnwyd o'r manylion a ddarparwyd gan y Swyddfa Gynllunio ar gyfer HESA.

Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyfeirio atynt yn ei gyflwyniad ac adroddwyd mai'r prif bennawd yw'r cynnydd o 30.4 yn niferoedd CALL Cyfrwng Cymraeg oddi ar y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriwyd at y cynnydd sylweddol a welwyd ym meysydd Addysg a Gwyddorau Cymdeithas ynghyd â'r cynnydd calonogol ym meysydd Busnes a Seicoleg. Nodwyd, serch hynny, bod y gostyngiad yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn destun pryder.

2. Ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

a. Cynllun Prif Ysgoloriaethau

- Mae'r ysgoloriaethau hyn werth £3000 dros dair blynedd, ac wedi'u cyfyngu i feysydd lle mae modd astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy'r Gymraeg.

- Derbyniwyd 171 cais yn genedlaethol.
- Roedd oddeutu 60-65 o'r ceisiadau hyn ar gyfer Bangor.
- Bydd yr ysgoloriaethau yn cael eu dyfarnu ym Mangor trwy drefn yr arholiadau mynediad.

b. **Cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant**

- Mae'r ysgoloriaethau hyn werth £1500 dros dair blynedd ac wedi'u neilltuo ar gyfer meysydd penodol lle mae modd astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy'r Gymraeg.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **25 Mawrth 2011**
- I fod yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaethau, mae'n rhaid i ddarpar fyfyrwyr gyflwyno cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar wefan mantais.

3. **Ysgoloriaethau PhD y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2011/12**

Cyflwynwyd ceisiadau yn y meysydd isod:

- Busnes (gan ddatblygu darpariaeth yn adain Cyfrifeg yr ysgol)
- Gwyddorau Cymdeithas (gan ddatblygu darpariaeth ym maes Polisi Cymdeithasol)
- Gwyddorau Iechyd (gan ddatblygu darpariaeth ym maes Gofal Iechyd)
- Cymraeg (gan ddatblygu darpariaeth ym maes y Gymraeg a Thechnoleg Cyfathrebu)
- Seicoleg (gan ehangu'r ddarpariaeth o'r meysydd generig presennol i feysydd mwy arbenigol)

4. **Cynllun Staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Mae ceisiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer swyddi yn y meysydd isod:

Cemeg
Cerddoriaeth (x2)
Gwyddorau'r Amgylchedd
Gwyddorau Cymdeithas
Ieithoedd Modern
Nyrsio/Gwyddorau Iechyd
Seicoleg
Gwaith Cymdeithasol

Mae'r panel dyfarnu ar gyfer yr ysgoloriaethau PhD a'r Cynllun Staffio yn cyfarfod ar y 9fed o Chwefror.

Nodwyd bod angen cynllunio o flaen llaw ar gyfer ceisiadau 2011/12 a'r dyfodol.

6. "CYFLWYNO DARPARIAETH GYDWEITHREDOL" – CYFLWYNIAD GAN SARA DAVIES A DR PAULA ROBERTS

Gyda dyfodiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r pwyslais cynyddol ar ddarpariaeth gydweithredol gwahoddwyd Sara Davies a Dr Paula Roberts i adrodd ar eu profiad o fod yn ymwneud â chyflwyno darpariaeth gydweithredol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddodd Sara amlinelliad o'r modiwl "Y Gyfraith yn Gymraeg" a gyflwynir gan Ysgol y Gyfraith a Chanolfan Bedwyr i fyfyrwyr Bangor, Aberystwyth a Morgannwg. Eglurodd fel yr oedd y modiwl yn gyfuniad o dri diwrnod o weithdai mewn un sefydliad, sesiynau dysgu ffurfiol drwy fideo-gynhadledd a deunyddiau dysgu-o-bell ar lwyfan cenedlaethol Y Porth.

Roedd y patrwm a gyflwynodd Dr Paula Roberts yn wahanol. Roedd y modiwl 'Methodoleg Maes' yn cael ei gyflwyno ar ffurf penwythnos preswyl cyffredin i fyfyrwyr Bangor, Aberystwyth ac Abertawe. Roedd y tri sefydliad yn eu tro yn cymryd y cyfrifoldeb o drefnu a lletya'r penwythnos, ond nodwyd mai'r sefydliadau unigol a oedd yn gyfrifol am osod yr aseiniadau a'u marcio. Nododd Paula fod trefniant o'r fath yn ddibynnol iawn ar ewyllys da darlithwyr a bod angen cadw golwg fanwl ar faterion yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

Yng nghyd-destun materion ansawdd a'r angen i'r Brifysgol reoli unrhyw risg, nodwyd mai'r patrwm a oedd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer dilysu darpariaeth gydweithredol genedlaethol oedd ei dilysu ym mhob un o'r sefydliadau unigol.

Wrth i fwy o unigolion ac ysgolion gynllunio ar gyfer cyflwyno darpariaeth gydweithredol, atgoffwyd yr aelodau fod Eirian Jones, Canolfan Bedwyr, ar gael i hwyluso unrhyw drefniadau.

7. MATERION Y DIRPRWY IS-GANGHELLOR

Adroddodd y Dirprwy Is-Ganghellor fod ganddo ddwy flaenoriaeth tymor byr wrth ddechrau yn ei swydd. Y cyntaf ohonynt oedd yr angen i gymreigio project PONTIO a'r ail oedd adleoli Canolfan Bedwyr mewn man mwy canolog.

Yng nghyd-destun y flaenoriaeth gyntaf, cytunwyd y dylid anfon llythyr ar ran aelodau'r Ysgol at yr Athro Fergus Lowe yn pwysleisio pwysigrwydd cwbl allweddol y Gymraeg i ddatblygiad a llwyddiant project PONTIO ac i'w weithrediad o ddydd i ddydd yn y dyfodol.

Gweithredu: LlJ

8. UNRHYW FATER ARALL

Adroddwyd gan Miss Mair Rowlands y bydd yr Undeb yn cynnal Sesiwn Holi gyda Llywydd y Cynulliad, yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau am 6.00 o'r gloch, ddydd Gwener, 28 Ionawr. Ychwanegwyd y bydd Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnal dadl gyhoeddus ynghylch y refferendwm ar ddatganoli ar yr 8^{fed} o Chwefror.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Ysgol am 2.15 pm, ddydd Llun 4 Ebrill 2011 yn Siambr y Cyngor.